# Cynnig am emoji: Swigen siarad oren Cymraeg i gynrychioli'r Gymraeg a chynorthwyo pobl i adnabod siaradwyr Cymraeg

**Cyflwynwyd gan: Comisiynydd y Gymraeg (Cysylltu â ni)**

**Dyddiad: 01/07/2026**

## 1. Adnabod

**Iaith Gwaith yw enw swyddogol y symbol. Er hynny, fe'i defnyddir bellach fel symbol i gynrychioli'r Gymraeg yn gyffredinol. Ar y sail honno y cyflwynir y cais hwn.**

a. **Geiriau allweddol:** Cymraeg; Welsh; Iaith Gwaith; Working Welsh; gwasanaeth Cymraeg; siaradwr Cymraeg; Cymraeg eu hiaith.

b. **Categori:** other-symbol

## 2. Delweddau:

a. **Enghreifftiau lliw a du a gwyn o'r delweddau:**




b. **Trwydded:** Gallwn gadarnhau mai Comisiynydd y Gymraeg sy'n berchen ar unrhyw hawliau eiddo deallusol yn y delweddau hyn: **Hawlfraint ac Ailddefnyddio Deunyddiau**.


### 3. Ffactorau o blaid cynnwys:

a. **Yn mynegi sawl cysyniad:** Mae'n cynrychioli tri chysyniad cysylltiedig: y Gymraeg, siaradwyr Cymraeg, ac argaeledd gwasanaethau Cymraeg.

b. **Gellir ei ddefnyddio gydag emoji eraill i gyfleu cysyniadau ychwanegol:**

**(Sylwer nad yw'r rhestr isod yn holl gynhwysfawr, ac y gellid ychwanegu'r symbol at nifer o emojis er mwyn cyfleu cyfleoedd i fyw yn Gymraeg.)**

- Gellir ei gyfuno ag emoji pen yn siarad i gyfleu'r weithred o siarad Cymraeg:




- Gellir ei gyfuno ag unrhyw emoji yn y categori [person-role] i gyfleu gallu gweithiwr i siarad Cymraeg. Er enghraifft, i gyfleu Barnwr sy'n siarad Cymraeg, gellid defnyddio:




- Gellir ei gyfuno ag emoji sy'n cyfleu dulliau cyfathrebu i hyrwyddo cyfleoedd i gyfathrebu yn Gymraeg. Er enghraifft, i hysbysebu llinell ffôn Gymraeg, gellid defnyddio:




- Gellir ei gyfuno hefyd ag unrhyw emoji yn y categori [person-sport] i hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn chwaraeon. Er enghraifft, i gyfleu gwers nofio cyfrwng Cymraeg, gellid defnyddio:




c. **Yn torri tir newydd:** Ydy. Mae'n symbol unigryw a luniwyd yn benodol ar gyfer y Gymraeg, iaith swyddogol ond leiafrifol yng Nghymru. Mae'r nodyn technegol hwn yn glir nad yw baner genedlaethol Cymru yn briodol i

gynrychioli'r iaith: **Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg**

> *Mae defnyddio baneri i ddynodi ieithoedd yn enghraifft o ddefnyddio delweddau mewn ffordd amhriodol, yn enwedig pan fydd gwlad yn ddwyieithog neu os bydd iaith yn cael ei siarad mewn mwy nag un wlad. Er enghraifft, nid yw baner Lloegr (San Siôr) yn cyfateb i'r iaith Saesneg i Americanwyr, Awstraliaid, Cymry sy'n siarad Saesneg ac ati. Felly, argymhellir yn gryf na ddylid defnyddio baneri cenedlaethol yn arwydd o ddewis iaith.*

Mae hyn yn gyson â **Phecyn cymorth technoleg dwyieithog: profiad da i'r defnyddiwr** Llywodraeth Cymru, sy'n nodi na ddylid defnyddio baneri cenedlaethol neu symbolau eraill i gynrychioli iaith, ac eithrio'r symbol Iaith Gwaith hwn.

Byddai cyflwyno'r emoji hwn yn cryfhau cyfathrebu digidol amlieithog drwy gynnig dull clir a hwylus i siaradwyr Cymraeg adnabod ei gilydd ar-lein. Byddai hefyd yn cynyddu gwelededd iaith leiafrifol a llai ei defnydd yn y parth digidol. Gallai hyn annog mentrau tebyg gan gymunedau ieithyddol eraill sydd mewn sefyllfa debyg i'r Gymraeg maes o law.


d. **Mae'n ddarllenadwy ac yn weledol unigryw:** Sefydlwyd symbol Iaith Gwaith yn 2005 ac mae bellach yn adnabyddus ledled Cymru, yn enwedig mewn gweithleoedd neu mannau sy'n cynnig gwasanaethau cyhoeddus. Fe'i defnyddir i ddynodi siaradwyr Cymraeg ac i annog defnydd o'r Gymraeg. Am ragor o wybodaeth gweler: **Iaith Gwaith | Comisiynydd y Gymraeg**.


e. **Mae ganddo lefel uchel o ddefnydd:** Mae Comisiynydd y Gymraeg yn dosbarthu dros 50,000 o nwyddau (bathodynnau, cortynnau gwddf ayb) bob blwyddyn. Defnyddir y symbol yn helaeth hefyd mewn llofnodion e-bost, ar blatfformau digidol ac yn rhan o frandio corfforaethol. Mae bron i 8,500 wedi ymweld â thudalen Iaith Gwaith ar ein gwefan eleni. Mae'r Comisiynydd hefyd yn cynnig trwyddedau i sefydliadau gynhyrchu eu nwyddau eu hunain, er enghraifft mae'n cael ei frodio i wisgoedd yn y sector iechyd neu ei argraffu ar hetiau caled yn y diwydiant adeiladu.


f.
   i. **Amlder (dangosir canlyniadau ar gyfer 'Iaith Gwaith', 'Cymraeg' a 'Welsh' isod)[1]**


      1. **Chwiliad Google:**

[1] Mae'r sgrinluniau isod yn defnyddio rhyngwyneb Saesneg Google gan fod y ddogfen hon yn gyfieithiad o'r cais swyddogol a gyflwynwyd i Unicode.

















2. **Chwiliad fideo Google:**



Google
elephant
AI Mode
All
Images
Shopping
Videos
Short videos
News
More
Tools
Any duration
Any time
Any quality
All videos
Any source
Advanced Search
About 80,000,000 results (0.21s)
www.youtube.com › watch
The Elephant Herd Loving the First Spring Rains
Carer Owen captures a peaceful morning with the herd as the you enjoy a chilly morning swim. The air is still cool from the night's ...
11:22
YouTube · HERD Elephant Orphanage South Africa · 3 Nov 2025
www.youtube.com › watch
Baby Elephant Is So Excited To Be Freed From Chains | The ...



Google
iaith-gwaith
AI Mode
All
Images
Videos
News
Shopping
Forums
More
Tools
Any duration
Any time
Any quality
All videos
Any source
Advanced Search
About 13,000 results (0.30s)
www.facebook.com › Colegsirgarandceredigion › posts
For 20 years, the Iaith Gwaith badge has helped people to .
For 20 years, the Iaith Gwaith badge has helped people t can speak Welsh - let's celebrate its birthday together! # ..
0:11
Facebook · Coleg Sir Gâr and Ceredigion · 2 Dec 2025
www.facebook.com › ITECskills › videos › new-series-i...






## 3. Google Trends: chwiliad gwe:









## 4. Google Trends: chwiliad delweddau:



elephant
Search term
iaith-gwaith
Search term
Add comparison
United Kingdom
2008 – present
All categories
Image Search
Interest over time
100
75
50
25
Average
1 Jan 2008
1 Jun 2014
1 Nov 2020



elephant
Search term
Cymraeg
Search term
Add comparison
Worldwide
2008 – present
All categories
Image Search
Interest over time
100
75
50
25
Average
1 Jan 2008
1 Apr 2014
1 Jul 2020




### 5. Google Books Ngram Viewer:


Google Books Ngram Viewer
elephant, iaith-gwaith
1500 - 2019
English
Case-Insensitive
Smoothing
0.000450%
0.000400%
0.000350%
0.000300%
0.000250%
0.000200%
0.000150%
0.000100%
0.000050%
0.000000%
2006
2008
2010
2012
2014
2016
2018
2020
2022
elephant


Google Books Ngram Viewer
elephant,Cymraeg
1500 - 2019
English (2019)
Case-Insensitive
Smoothing
0.000900%
0.000800%
0.000700%
0.000600%
0.000500%
0.000400%
0.000300%
0.000200%
0.000100%
0.000000%
1500
1550
1600
1650
1700
1750
1800
1850
1900
1950
2000
elephant
Cymraeg
(click on line/label for focus)




g. **Yn cwblhau categori anghyflawn:** Amherthnasol.

h. **Mae ei angen er mwyn cydnawsedd â systemau poblogaidd presennol:** Amherthnasol.

4. **Ffactorau yn erbyn cynnwys**
   a. **Wedi'i gynrychioli eisoes:** Nac ydy. Nid oes emoji presennol sy'n cynrychioli'r Gymraeg, siaradwyr Cymraeg na gwasanaethau Cymraeg.

   b. **Yn or-benodol:** Mae'n ddigon cyffredinol i gyfleu'r Gymraeg, siaradwyr Cymraeg neu wasanaeth Cymraeg.

   c. **Pen agored:** Nid oes angen emoji arall i gynrychioli'r Gymraeg na siaradwyr Cymraeg. Mae'r symbol hwn yn ddigon clir ac eang ei gwmpas i wneud hynny.

   d. **Dros dro:** Mae'r symbol wedi'i sefydlu'n gadarn ac wedi bod mewn cylchrediad ers dros 20 mlynedd. Mae'r holl dystiolaeth sydd gennym yn awgrymu bod ei ddefnydd, a'r ymwybyddiaeth o'i ystyr, yn cynyddu.

   e. **Wedi'i gyfiawnhau gan emoji presennol:** Nid ydym yn ymwybodol o emoji tebyg ar gyfer ieithoedd lleiafrifol eraill, ac felly nid ydym yn ceisio gwneud cymhariaeth annilys.

5. **Gwybodaeth arall:**

Y Gymraeg yw un o ieithoedd byw hynaf Ewrop, ond fe'i dosberthir gan UNESCO fel iaith *fregus*. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050 ac i ddyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg: **Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg | LLYW.CYMRU**. Byddai'r emoji hwn yn cyfrannu'r uniongyrchol at y nod hwnnw. Byddai'n galluogi siaradwyr Cymraeg i adnabod ei gilydd – yn enwedig ar-lein – gan hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfathrebu digidol.

Mae cynyddu gweladwyedd symbol Iaith Gwaith mewn cyd-destunau digidol hefyd wedi'i nodi gan Lywodraeth Cymru fel blaenoriaeth strategol: **Technoleg Cymraeg a deallusrwydd artiffisial (DA) | LLYW.CYMRU**.

**Y swigen siarad oren yw elfen greiddiol y dyluniad. Er bod y gair *Cymraeg* yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin yn y dyluniad presennol, mae'r symbol ar ei ben ei hun yn ddigon adnabyddus os nad yw'n bosibl cynnwys testun yn rhan o ddyluniad emoji.**

**Diolch yn fawr iawn am ystyried y cais hwn.** I drafod unrhyw agwedd arno, cysylltwch â Dr Eleri James (**eleri.james@cyg-wlc.cymru**).